

## Tasg 1

# Faint?

1. Dyma gyflogau rhai o'r chwaraewyr pêl-droed yn y darn.

Ysgrifennwch y cyflogau mewn geiriau.

£310 000 yr wythnos	
£430 000 yr wythnos	
£650 000 yr wythnos	
£500 000 yr wythnos	
£365 000 yr wythnos	
£317 000 yr wythnos	
£350 000 yr wythnos	
£460 000 yr wythnos	

2. Chwiliwch am gyflogau dau bêl-droediwr sy'n chwarae ym Mhrydain ac yng Nghymru a llenwch y grid ar y dudalen nesaf.

Enw'r pêl-droediwr ac enw'r tîm	Cyflog - ffigurau	Cyflog - geiriau

3. Mae dau gwestiwn yn y darn.

Ysgrifennwch y cwestiynau isod cheisiwch eu hateb nhw. Bydd rhaid i chi chwilio ar y we, o bosib.


4. Edrychwch ar y graff yn ofalus.

Mae echelin Y yn cyfeirio at wahanol gategorïau o weithwyr. Beth yw ystyr y categorïau hyn?

Nodwch enghreifftiau o ddau fath o weithiwr neu ddwy swydd wahanol ym mhob categori, e.e.

Swyddi proffesiynol a thechnegol cyswllt:	<ul style="list-style-type: none"><li>- dylunwyr cynnyrch</li><li>- rheolwyr datblygu busnes</li></ul>
---	--

Os ydych chi eisiau help, edrychwch ar y wefan [hon](#).

5. Yn ôl y ddelwedd, pwy sy'n ennill y cyflog uchaf?

6. Yn ôl y ddelwedd, pwy sy'n ennill y cyflog isaf?

7. Yn ôl y ddelwedd, pwy sy'n ennill y cyflog uchaf - ysgrifennydd neu rywun sy'n gweithio mewn siop?

8. Sut mae'r cyflogau hyn yn cymharu â chyflogau'r pêl-droedwyr rydych chi wedi ymchwilio iddyn nhw uchod?

9. Beth yw agwedd yr areithiwr tuag at ...?

a. gyflogau dynion a merched

b. cyflogau pêl-droedwyr

Rhowch resymau dros eich atebion.

Trafodwch eich atebion mewn grŵp.

10. Ydy pêl-droedwyr yn ennill gormod o arian yn eich barn chi?  
Rhowch resymau dros eich ateb.

Meddyliwch am bethau fel y canlynol a gwnewch nodiadau:

- beth yn union maen nhw'n ei wneud o ddydd i ddydd
- eu ffordd o fyw
- eu delwedd
- sut mae eu cyflog yn cymharu â chyflogau pobl eraill (e.e. gweithwyr sy'n gofalu am bobl)

Trafodwch eich syniadau mewn grŵp.

Os ydych chi'n hoffi syniadau newydd gan aelodau eraill y grŵp, cofnodwch nhw gyda'ch nodiadau chi.

Ewch i'r dudalen nesaf.

11. Ysgrifennwch ddarn ar gyfer cylchgrawn chwaraeon yn mynegi'ch barn am gyflogau pêl-droedwyr.

